

Sunday the 2nd of August 2026
+ The Ninth Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, you sent your Holy Spirit to be the life and light of your Church : open our hearts to the riches of your grace, that we may bring forth the fruit of the Spirit in love and joy and peace ; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Isaiah
(55.1-5)

The Lord says this, everyone who thirsts, come to the waters; and you that have no money, come, buy and eat! Come, buy wine and milk without money and without price. Why do you spend your money for that which is not bread, and your labour for that which does not satisfy?

Listen carefully to me, and eat what is good, and delight yourselves in rich food. Incline your ear, and come to me; listen, so that you may live. I will make with you an everlasting covenant, my steadfast, sure love for David. See, I made him a witness to the peoples, a leader and commander for the peoples. See, you shall call nations that you do not know, and nations that do not know you shall run to you, because of the Lord your God, the

Holy One of Israel, for he has glorified you.

The Psalm
(145.14-22)

The Lord is sure in / all his words:
and faithful in / all his deeds. The
Lord upholds all / those who / fall:
and lifts up all / those who / are
bowed / down.

The eyes of all wait upon / you, O
/ Lord: and you give them their /
food in / due / season. You open /
wide your / hand: and fill / all things
/ living with / plenty. The Lord is
righteous in / all his / ways: and /
loving in / all his / works.

The Lord is near to those who /
call up/on him: to all who / call
up/on him / faithfully. He fulfils the
desire of / those who / fear him: he
/ hears their / cry and / saves them.

The Lord watches over / those
who / love him: but all the / wicked
shall / he des/troy. My mouth shall
speak the / praise of the / Lord: and
let all flesh bless his holy / name for /
ever and / ever.

The reading from Romans
(9.1-5)

I am speaking the truth in Christ
— I am not lying; my conscience
confirms it by the Holy Spirit — I
have great sorrow and unceasing
anguish in my heart. For I could wish
that I myself were accursed and cut
off from Christ for the sake of my
own people, my kindred according
to the flesh. They are Israelites, and

to them belong the adoption, the
glory, the covenants, the giving of
the law, the worship, and the
promises; to them belong the
patriarchs, and from them, according
to the flesh, comes the Messiah, who
is over all, God blessed for ever.
Amen.

The reading from the Gospel
according to Saint Matthew (14.13-21)

When Jesus heard that Herod
had beheaded John the Baptist, he
withdrew from there in a boat to a
deserted place by himself. But when
the crowds heard it, they followed
him on foot from the towns.

When he went ashore, he saw a
great crowd; and he had compassion
for them and cured their sick.

When it was evening, the
disciples came to him and said, 'This
is a deserted place, and the hour is
now late; send the crowds away so
that they may go into the villages
and buy food for themselves.'

Jesus said to them, 'They need
not go away; you give them
something to eat.'

They replied, 'We have nothing
here but five loaves and two fish.'

And he said, 'Bring them here to
me.' Then he ordered the crowds to
sit down on the grass.

Taking the five loaves and the two
fish, he looked up to heaven, and
blessed and broke the loaves, and

gave them to the disciples, and the
disciples gave them to the crowds.

And all ate and were filled; and
they took up what was left over of
the broken pieces, twelve baskets
full. And those who ate were about
five thousand men, besides women
and children.

The collect following communion

Holy Father, you gathered us
here around the table of your Son to
share this meal with the whole
household of God : in that new
world where you reveal the fullness
of your peace, gather people of
every race and language to share in
the eternal banquet of Jesus Christ
our Lord. AMEN



Dydd Sul 2^{il} Awst 2026
+ 9^{fed} Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, a anfonaist dy Ysbryd Glân i fod yn fywyd a goleuni i'th Eglwys, agor ein calonnau i gyfoeth dy ras, fel y dygwn ffrwyth yr Ysbryd mewn cariad a llawenydd a thangnefedd ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseia
(55.1-5)

"Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytwch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl. Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw'n fara, a llafurio am yr hyn nad yw'n digoni?"

"Gwrandewch arnaf yn astud, a chewch fwyta'r hyn sydd dda, a mwynhau danteithion. Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw. Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol, fy ffyddlondeb sicr i Ddafydd. Edrych, rhois ef yn dyst i'r bobl, yn arweinydd a chyfarwyddwr i'r bobl. Edrych, byddi'n galw ar genedl nid adweini, a bydd cenedl nad yw'n dy adnabod yn rhedeg ataf; oherwydd yr ARGLWYDD dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu."

Y Salm
(145.14-21)

Fe gynnal yr Arglwydd bawb sy'n syrthio, a chodi pawb sydd wedi eu darostwng.

Try llygaid pawb mewn gobaith atat ti, ac fe roi iddynt eu bwyd yn ei bryd;

y mae dy law yn agored, ac yr wyt yn diwallu popeth byw yn ôl d'ewyllys.

Y mae'r Arglwydd yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd ac yn ffyddlon yn ei holl weithredoedd.

Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n galw arno, at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd.

Gwna ddymuniad y rhai sy'n ei ofni; gwrendy ar eu cri, a gwareda hwy.

Gofala'r Arglwydd am bawb sy'n ei garu, ond y mae'n distrywio'r holl rai drygionus.

Llefara fy ngenau foliant yr Arglwydd, a bydd pob creadur yn bendithio'i enw sanctaidd byth bythoedd.

Darlleniad o Rufeiniaid
(9.1-5)

Ar fy ngwir yng Nghrist, heb ddim anwiredd — ac y mae fy nghydwibod, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, yn fy ategu — y mae fy ngofid yn fawr, ac y mae gennyf loes ddi-baid yn fy nghalon. Gallwn ddymuno i mi fy hunan fod dan felltith, ac yn ysgymun oddi wrth Grist, pe bai hynny o les iddynt hwy, fy nghyd-lddewon i, fy mhobl i o ran

cig a gwaed. Israeliaid ydynt; eu heiddo hwy yw'r mabwysiad, y gogoniant, y cyfamodau, y Gyfraith, yr addoliad a'r addewidion. Iddynt hwy y mae'r hynafiaid yn perthyn, ac oddi wrthynt hwy, yn ôl ei linach naturiol, y daeth y Meseia. I'r Duw sy'n llywodraethu'r cwbl boed bendith am byth. Amen.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew (14.13-21)

Pan glywodd Iesu, aeth oddi yno mewn cwch i le unig o'r neilltu. Ond clywodd y tyrfaedd, a dilynasant ef dros y tir o'r trefi.

Pan laniodd Iesu, gwelodd dyrfa fawr, a thosturiodd wrthynt ac iacháu eu cleifion hwy.

Fel yr oedd yn nosi daeth ei ddisgyblion ato a dweud, "Y mae'r lle yma'n unig ac y mae hi eisoes yn hwyr. Gollwng y tyrfaedd, iddynt fynd i'r pentrefi i brynu bwyd iddynt eu hunain."

Meddai Iesu wrthynt, "Nid oes rhaid iddynt fynd ymaith. Rhowch chwi rywbeth i'w fwyta iddynt."

Meddent hwy wrtho, "Nid oes gennym yma ond pum torth a dau bysgodyn."

Meddai yntau, "Dewch â hwy yma i mi."

Ac wedi gorchymyn i'r tyrfaedd eistedd ar y glaswellt, cymerodd y pum torth a'r ddau bysgodyn, a chan edrych i fyny i'r nef a bendithio, torrodd y torthau a rhoddodd hwy

i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r tyrfaedd.

Bwytasant oll a chael digon, a chodasant ddeuddeg basgedaid lawn o'r tameidiau oedd dros ben. Ac yr oedd y rhai oedd yn bwyta tua phum mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant.

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dad sanctaidd, a'n galwodd ni yma ynghyd o amgylch bwrdd dy Fab i gyfranogi o'r pryd hwn gyda holl deulu Duw : yn y byd newydd hwnnw lle y datguddi lawnder dy dangnefedd, cynnull bobl o bob hil ac iaith i gyfranogi o wledd dragwyddol Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

